**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener, 14 Mai 2021 am 10.00am**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | N J Davies | P Downing |
| P Lloyd | H M Morris | C L Philpott |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Craig Davies | Cyfreithiwr |
| Nick Huffer | Cyfreithiwr Cyflogaeth |
| Richard Jenkins | Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorwyr: J P Curtice, S J Gallagher, B J Rowlands and L G Thomas

---

## 34 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 35 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2021 yn gofnod cywir.

## 36 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i

Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 37 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Adnewyddu Trwydded ar gyfer Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat – KGR.

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â KGR.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd KGR yr amgylchiadau a oedd yn ymwneud â'r euogfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd:**

1. Adnewyddu Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat KGR am gyfnod o 6 mis
2. Rhoi rhybudd i KGR ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**Rheswm dros y Penderfyniad**

Rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r sylwadau yng nghyfarfod y pwyllgor, ond rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r hanes gyrru a diffyg cydymffurfio ag is-ddeddfau ac amodau; felly, rhoddwyd adnewyddiad o 6 mis.

## 38 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Deddf Cydraddoldeb 2010 - Teithwyr mewn Cadeiriau Olwyn - Cais am Dystysgrif Eithrio - PM.

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â PM.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd PM yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd cymeradwyo** cais PM am eithriad rhag cludo defnyddwyr cadair olwyn mewn cerbyd hacni a/neu gerbyd hurio preifat.

## 39 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Deddf Cydraddoldeb 2010- Teithwyr mewn Cadeiriau Olwyn - Cais am Dystysgrif Eithrio - MAI.

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â MAI.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd MAI yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd cymeradwyo** cais MAI am eithriad rhag cludo defnyddwyr cadair olwyn mewn cerbyd hacni a/neu gerbyd hurio preifat.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00 pm

**Cadeirydd**